Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Adain y Ddraig

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Gwanwyn 2012

NEWYDDION GAN GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU / *NEWS FROM THE COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES*

53

Darganfod Siâp Cymru

Yn ddiweddarach eleni bydd Llwybr Arfordir Cymru, sy'n 870 milltir o hyd, yn cael ei lansio. O'r adeg honno ymlaen bydd arfordir Cymru ar agor i weddill y byd. Hwn fydd y llwybr arfordirol di-dor hiraf drwy'r byd o amgylch un wlad.

Mae Cymru eisoes wedi'i dewis gan *Lonely Planet* fel yr ardal orau ary blaned i ymweld â hi yn ystod 2012, a bydd y Llwybr yn galluogi pawb i fynd i rannau o'r arfordir a oedd gynt yn amhosibl ymweld â nhw. Gan ddechrau yng nghyffiniau Caer, ym mhen uchaf y ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae'r Llwybr yn ymdroelli trwy olygfeydd arfordirol ysblennydd a chyfnewidiol, gan ddod i ben yng Nghas-gwent yn Ne Ddwyrain Cymru. Trwy gyfuno'r Llwybr hwn â Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, bydd modd troedio o amgylch Cymru gyfan.

Bydd tri o brif ddigwyddiadau'n agor Llwybr Arfordir Cymru yn swyddogol ar 5 Mai – manylion i ddilyn gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r dathliadau bydd Y Cerddwyr hefyd yn trefnu cyfres o deithiau cerdded ar hyd y Llwybr. A bydd dathliadau eraill ar gyfer cymunedau lleol ac amrywiaeth eang o grwpiau a sefydliadau'n cael eu cynnal drwy gydol y gwanwyn a'r haf.

Wrth gwrs, nid Llwybr sy'n gofyn am sachau teithio ac esgidiau cerdded yn unig mohono, oherwydd mae amrywiaeth eang o weithgareddau'n gysylltiedig ag ef. Mae'n arwain at safleoedd treftadaeth diddorol ac yn dadlennu diwylliant Cymru, gan gynnig golygfeydd godidog a thrawiadol – o gopaon urddasol Eryri i fryniau tonnog Sir Benfro.

Mae'r Llwybr yn cael ei ddatblygu er mwyn cynnig mynediad i bobl sydd â phroblemau symud, a theuluoedd â chadeiriau gwthio lle bynnag y bo modd. Y nod yw denu ymwelwyr newydd yn ogystal â'r ffyddloniaid a phobl lleol, i droedio gwahanol rannau'r Llwybr, fel y gallant elwa i'r eithaf ar yr ymarfer corff a'r awyr iach.

Y disgwyl yw y bydd y Llwybr yn denu mwy o ymwelwyr i arfordir Cymru. Bydd hyn, yn ei dro, o fudd i economi'r gwahanol ardaloedd. Mae'n newyddion gwych i fusnesau sydd wedi'u lleoli ar yr arfordir, i dwristiaeth, ac i'r economi'n gyffredinol.

Caiff y Llwybr ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â'r Cyngor Cefn Gwlad, 16 o awdurdodau lleol a dau o Barciau Cenedlaethol – a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol arfordirol a'r Undeb Ewropeaidd.

©Jeremy Moore

Papur Gwyrdd Cymru Fyw - erthygl arbennig gan Morgan Parry, tud 3.

Glastir – gwahoddiad am sgwrs er lles pawb

Mae'r Cyngor yn annog ffermwyr i ffonio am sgwrs cyn gwneud cais i wneud gwaith a allai effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan gynllun Llywodraeth Cymru, Glastir.

Y nod yw helpu'r perchnogion i arbed amser a chostau wrth drafod unrhyw broblemau posib ymlaen llaw.

"Gwahoddiad ydi hwn i ddod i siarad efo ni, er lles pawb," meddai Bethan Beech, Swyddog Cadwraeth y Cyngor yn y Gogledd-ddwyrain.

"Mi fyddai'n llawer gwell cael sgwrs efo'r Cyngor Cefn Gwlad cyn gwneud cais Glastir sy'n effeithio ar SoDdGA, yn hytrach na gorfod ail-wneud y ffurflenni wedyn."

Er y bydd llawer o'r ceisiadau'n gwbl syml, fe fydd ychydig achosion yn fwy cymhleth a gyda'r rheiny y bydd y gwerth mwyaf o gael trafodaeth ymlaen llaw.

Fe fydd y ffenest nesa' ar gyfer ceisiadau Elfen Cymru Gyfan Glastir yn agor rhwng 30 Ionawr a 30 Mawrth 2012 ac fe fydd gan ffermwyr ddewis eang o wahanol weithgareddau rheoli tir.

Lle bydd y dewisiadau Elfen Cymru Gyfan (AWE) yn effeithio ar SoDdGA, mae angen i'r Cyngor Cefn Gwlad gytuno â'r bwriad cyn y gall Llywodraeth Cymru roi cytundeb Glastir. Yn ôl Bethan Beech, gallai sgwrs ymlaen llaw sicrhau fod pethau'n mynd yn esmwyth.

"Un enghraifft fyddai gwneud llyn newydd mewn SoDdGA, neu'n agos at un," meddai Bethan. "Mi fyddai sgwrs yn gallu dangos a fyddai'r Cyngor yn gallu cytuno â'r cynllun."

Dylai unrhyw un sydd eisiau sgwrs am effaith cais Glastir ar SoDdGA gysylltu gyda'u Swyddog Cadwraeth lleol. Mae un ym mhob ardal ac mae modd cael gafael arnyn nhw trwy rif ffôn y brif swyddfa – 0845 1306229.

Yn rownd gyntaf Glastir, roedd bron chwarter y ffermydd a wnaeth gais ar gyfer yr elfen Cymru Gyfan o Glastir yn ymwneud â SoDdGAau ac mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried 220 o geisiadau am osod nodweddion Glastir mewn safleoedd o'r fath. Deliwyd eisoes gyda 150 o geisiadau ar gyfer yr Elfen Tir Comin a oedd hefyd yn effeithio ar SoDdGAau.

Yn y mwyafrif llethol o achosion, roedd y Cyngor wedi gallu cytuno â'r cynigion, er bod angen trafodaeth drylwyr ar rai materion cyn eu datrys yn foddhaol.

Gadaell y dosbarth i ddysgu - tudalen 4
Golwg ar y môr - tudalen 7

Golygyddol

Mae'r penderfyniad hanesyddol wedi'i wneud! O fis Ebrill 2013 ymlaen, mi fydd swyddogaethau presennol y Cyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn cael eu huno o fewn un corff.

Ond pam mae angen un corff? Ai er mwyn gwneud yn fawr o arbedion ariannol trwy beidio ag ailadrodd gwaith? Er mwyn gwneud bywyd yn symlach i bawb sy'n gorfod delio â'r sefydliadau presennol?.....Er mwyn bod yn effeithlon? Ynteu er mwyn gwneud yn siŵr y gallwn reoli ein toreth o adnoddau amgylcheddol mewn modd mwy cydlynol – hynny yw, er mwyn bod yn fwy effeithiol?

Mewn gwirionedd, rhyw gymysgedd o'r cwbl. Ond yn sicr, nid y ffordd rydym yn trefnu ein sefydliadau amgylcheddol ar gyfer cyflawni'r gwaith yw'r prif sbardun. Yn union fel y mae'n rhaid i'r amgylchedd naturiol ymateb mewn modd cydlynol i bopeth a wnawn ni, rhaid i ninnau hefyd geisio rheoli'r amgylchedd mewn ffordd gynhwysfawr a hollgynhwysol.

Byd natur – tir, dŵr ac aer, ynghyd â phopeth byw, o ficrobau i bobl – yw ein system cynnal bywyd. Dyma sy'n gwneud popeth arall yn bosibl. Cymhlethdod yr elfennau amgylcheddol yma a'u perthynas gyda'i gilydd, ynghyd â phwysigrwydd adnoddau naturiol i'n datblygiad cymdeithasol/economaidd a'r pwysau o du cyfyngiadau naturiol a newid hinsawdd, sy'n ein cymell i newid y ffordd rydym yn eu rheoli.

Mewn gwirionedd, mae dull rheoli sy'n seiliedig ar ecosystemau yn gysyniad eithaf syml. Mae'n canolbwyntio ar iechyd yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na delio ag agweddau unigol ar eu pen eu hunain. Hefyd, mae'n seiliedig ar y ddealltwriaeth sylfaenol mai ein hamgylchedd sydd wrth wraidd ein hanghenion cymdeithasol/economaidd, ein hiechyd a'n lles.

Ein gobaith yw y bydd y dull cydgysylltiedig a symlach yma o reoli ein hadnoddau naturiol yn ein helpu i ymdopi â sialensiau arbennig, fel newid hinsawdd. Mae cryfhau ein hamgylchedd yn golygu bod angen inni yn gyntaf ddeall yn well sut mae ecosystemau yn gweithio. (Ecosystemau yw pethau byw fel microbau, planhigion ac anifeiliaid, ynghyd â'r creigiau, y priddoedd, y dŵr a'r aer y dônt i gysylltiad â nhw.) Ond y nod hefyd yw cynnig dulliau rheoli symlach a mwy cost-effeithiol, yn ogystal â gwell sicrwydd i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau trwy roi cyfarwyddyd cliriach iddyn nhw ynglŷn â ble yn union y gellir gwneud pethau.

Yn amlwg, mi fydd pawb ar eu hennill yn sgil hyn. Yr unig ddewis arall yw un lle bydd pawb ar eu colled – ac mi ddylid osgoi hwnnw fel y pla. Beth yn union sydd gennyf dan sylw? Mi fydd dinistr a dirywiad pellach i'r amgylchedd yn cael effaith andwyol ar y manteision a ddaw i'n rhan ni, yn effeithio ar ein lles ac, yn bwysicach na dim, yn gwneud pethau'n fwyfwy anodd i genedlaethau'r dyfodol.

Rhaid i bob un ohonom fod yn rhan o'r newidiadau yma yng Nghymru – a'r cam cyntaf yw cyfrannu at y ddau ymgynghoriad sydd ar y gweill. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i glywed eich barn ynglŷn â'r hyn y dylem ei wneud gyda'n hadnoddau naturiol yn y dyfodol a'r ffordd y dylem roi trefn ar ein cyrff amgylcheddol. Mi fydd y cysylltau isod yn eich tywys at y ddau. Cofiwch gyfrannu at y drafodaeth!



Roger Thomas
Prif Weithredwr

Pytiau

Cyngor yn dangos y ffordd gyda charbon ac iechyd

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi llwyddo unwaith eto i leihau ei ôl troed carbon ac wedi ennill cydnabyddiaeth am ymdrechu i wella iechyd a lles ei staff.

Mae wedi cyrraedd lefel Aur Safon Iechyd Corfforaethol ac, am yr ail dro, mae wedi cael ei gydnabod gan yr Ymddiriedolaeth Carbon trwy ennill ei nod Safon am ddwy flynedd arall.

Fe gafodd y nod cyntaf gan yr Ymddiriedolaeth Carbon ei roi yn 2009, am ddwy flynedd ac roedd rhaid i'r Cyngor dorri ei allyriadau carbon ymhellach er mwyn ei gadw.

Rhan allweddol o hynny oedd adnewyddu'r pencadlys gan wneud hynny i'r safonau amgylcheddol uchaf posib a gosod paneli ffotofoltäig yno i gynhyrchu ynni.

Mae'r rheiny bellach wedi bod yn cynhyrchu ynni ers mwy na blwyddyn – 25,000 kWawr y flwyddyn, digon i yrru 250 o gyfrifiaduron am flwyddyn a digon i arbed 13 tunnell o garbon.

Elfen allweddol arall yw torri ar nifer cerbydau'r Cyngor ac ar y tanwydd sy'n cael ei ddefnyddio.

O fewn pedair blynedd, mae nifer y cerbydau wedi gostwng o 73 i 57 a'r rheiny'n gerbydau mwy effeithiol o ran tanwydd – fe fu gostyngiad o 11% ym mhellter y teithiau a 26% yn y tanwydd.

Yn ogystal â chyfrannu at warchod yr amgylchedd, mae'r ddau fesur – y paneli ffotofoltäig a'r cerbydau mwy effeithiol – yn ennill neu arbed arian i'r Cyngor.

Ewrop yn mabwysiadu system arloesol y Cyngor

Mae system gyfrifiadurol sydd wedi ei datblygu gan y Cyngor Cefn Gwlad ar fin dod yn sail i reoli ardaloedd gwarchod ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'n bleidlais o hyder yn agwedd arloesol y Cyngor at ddefnyddio cyfriifiaduron i reoli gwybodaeth am safleoedd arbennig.

Hydref diwethaf, cafodd fersiwn rhyngwladol o'r system CMSi ei lansio gan bennaeth Uned Natura'r Undeb Ewropeaidd, Stefan Leiner.

"Dyma glamp o gam ymlaen i'r system," meddai Mike Alexander, yr aelod o staff y Cyngor Cefn Gwlad a ddechreuodd ddatblygu'r system yn nechrau'r 1980au pan oedd yn rheolwr gwarchodfa natur gyda'r Cyngor Cadwraeth Natur.

O'r dechrau, roedd y Cyngor yn gweld pwysigrwydd cyfrifiaduron a llwyddodd i berswadio cyrff cefn gwlad gweddill y Deyrnas Unedig i uno mewn consortiwm i ddatblygu'r system.

"Roedden ni ar flaen y gâd, ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o gyrff naill ai'n amheus neu'n wael am ddefnyddio cyfrifiaduron," meddai Mike Alexander.

Daeth y cyfle rhyngwladol yn 2010, pan holodd cynrychiolwyr o'r Iseldiroedd am gael mabwysiadu'r system ac, ers hynny, maen nhw wedi bod yn datblygu system newydd eto o CMS.

"Bydd y system yn helpu staff i ysgrifennu a chynnal eu cynlluniau rheoli, i drefnu a chofnodi eu gwaith ac i ddarparu'r holl wybodaeth fydd ei hangen ar eu cydweithwyr," meddai Mike Alexander.

Mae'n arf sy'n hyrwyddo dysgu, yn cydnabod y dull ecosystem o reoli ac yn cwrdd â'n holl anghenion yn awr ac i'r dyfodol."

Sut i Gynnal Cymru Fyw?

Llywodraeth Cymru yn gofyn am ein barn

Mae nifer ohonom sy'n gweithio ym maes yr amgylchedd yn amharod i newid. Nid ydym yn poeni rhyw lawer am ddilyn ffasiwn, felly rydym yn trwsio ac yn gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym yn barod. Nid ydym yn hoff iawn o symud y dodrefn o un lle i'r llall. Ond o dro i dro, mae cael gwared â hen bethau'n gwneud bywyd yn brafiach.

Abertawe©GraficHouse

Ers degawdau rydym wedi casglu cyfreithiau a rheoliadau i geisio delio â gwahanol broblemau. Rydym yn teimlo'n gartrefol yn gweithio yn y fath fodd. Ond mae Cymru wedi newid. Erbyn hyn gennym ein Llywodraeth ein hunain, a chyn bo hir mi fydd gennym un corff amgylcheddol sydd angen pwrpas newydd.

O'r herwydd, mae ein Llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd i danio'r drafodaeth. Bydd cyfraith newydd yn dilyn, i'n galluogi i reoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd sy'n hyrwyddo cadwraeth natur a defnydd cynaliadwy, gan gydnabod bod pobl a'u hamrywiaeth diwylliannol yn rhan hollbwysig o ecosystemau. Nid rhyw syniad wedi'i greu yng Nghymru yw hwn – dyma'r diffiniad y cytunir arno'n rhyngwladol ar gyfer rheoli'r amgylchedd ar sail ecosystemau. Rhaid inni lunio dull Cymreig o wneud hyn, a bod yn falch ohono.

Ni fydd rhai pethau byth yn newid. Ni fydd ein rhwymedigaeth foesol tuag at rywogaethau eraill byth yn dod i ben. Mae ein tir, ein dŵr a'n haer wedi bod yn 'system cynnal bywyd' erioed, ond nid ydym wedi eu gwerthfawrogi'n iawn wrth wneud penderfyniadau economaidd.

Mae ffermwyr yn gwybod yn iawn beth yw gwerth ecosystemau, a hwythau'n gorfod cynllunio ar gyfer dyfodol sydd angen mwy o fwyd. O ran twristiaeth, diwydiant mwyaf Cymru, ansawdd y tir yw'r ased pwysicaf. Ac mae'r ardaloedd mwyaf cynhyrchiol i'r diwydiant pysgota ar ymylon ardaloedd dan warchodaeth.

Gwarchod yr ecosystemau yma yw un o'n blaenoriaethau economaidd pwysicaf. Felly, beth am roi'r gorau i honni bod rheoleiddio'r amgylchedd yn faich ar fusnesau!

Yr her yw cael dulliau rheoleiddio symlach a rhatach, heb eu gwneud yn llai effeithiol. Os llwyddwn ni, mi fydd gennym fwy o adnoddau ar gyfer prosiectau mawr a all wella cyflwr byd natur a'n paratoi'n well ar gyfer newid hinsawdd. A bydd modd inni fuddsoddi mewn ymchwil gwyddonol, gwaith monitro a thystiolaeth.

Rhaid inni gynllunio ein defnydd o'n hadnoddau naturiol. Bydd hyn o fudd i'r cyhoedd, ac yn newyddion da i gwmnïau cyfrifol sy'n creu cyfoeth yn sgil yr adnoddau yma. Mae cynlluniau gofodol ar gyfer gwastraff, dŵr, ynni ac amddiffyn rhag llifogydd yn rhan o gynigion y Llywodraeth. Trwy gael system integredig o'r fath, bydd paratoi ar gyfer y dyfodol – lle ceir mwy o goetiroedd a mwy o reoliadau'n ymwneud â'r hinsawdd – yn haws.

Ond yr unig ffordd y gwnawn ni lwyddo yw os gwnaiff cymunedau lleol rannu'r manteision, cyfrannu eu gwybodaeth a chymryd rhan yn y penderfyniadau. Rhan olaf y jig-so yw ail-gysylltu pobl â byd natur. Mae gan y Cyngor a'i bartneriaid brofiad helaeth o hyn. Felly, beth am inni edrych tua'r dyfodol yn llawn gobaith, heb ofni'r newidiadau o'n blaenau.

Morgan Parry, Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Edrych ar y darlun mawr i wella penderfyniadau

Mae'r gwaith yn parhau i ddangos sut y gall y syniad o warchod ecosystemau cyfan - a mapiau sy'n dangos gwasanaethau amgylcheddol - arwain at well penderfyniadau ym maes cynllunio a defnydd tir.

Mae enghreifftiau ymarferol yn dangos sut y gall y mapiau newydd sicrhau bod datblygiadau'n cael eu caniatáu yn y llefydd iawn, tra bod penderfyniadau eraill ar sail gwybodaeth well yn helpu i warchod yr amgylchedd.

Ynghyd ag asiantaethau eraill, megis y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd, mae gwaith y Cyngor wedi cyfrannu'n sylweddol at y Papur Gwyrdd ar y Fframwaith Amgylcheddol Cenedlaethol a gyhoeddwyd ddiwedd Ionawr.

Disgwylir i'r Fframwaith roi llawer mwy o bwyslais ar wasanaethau amgylcheddol – bod raid inni warchod yr amgylchedd oherwydd ein bod yn dibynnu arno a'i fod yn darparu pob adnodd i gynnal ein bywyd.

Bydd mapiau newydd yn dangos amrywiaeth y gwasanaethau hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion cynllunio a defnydd tir.

Mae astudiaeth yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr wedi dangos sut y gall mapiau gwasanaethau amgylcheddol helpu – roedd un yn ymwneud â datblygiad diwydiannol, ac un arall ynglŷn â chais i dorri llecyn o goed oherwydd afiechyd.

"Gall y mapiau helpu wrth benderfynu lle i roi datblygiadau newydd," meddai Cynghorwr Defnydd Adnoddau Naturiol y Cyngor Cefn Gwlad, Russell Elliott. "Os ydych chi am godi unedau ffatri, ble dylech chi eu rhoi nhw i wneud y niwed lleiaf posib i'r amgylchedd."

Roedd y mapiau hefyd yn dangos sut y gallai torri coed effeithio ar allu'r dirwedd i gadw dŵr a helpu gydag atal llifogydd.

Weithiau, mae'r mapiau'n gallu arwain at gasgliadau annisgwyl, meddai Russell Elliott. Er enghraifft, roedden nhw'n dangos bod ardaloedd ymddangosiadol isel eu gwerth ger traffordd yr M4 mewn gwirionedd yn safleoedd pwysig ar gyfer peillio.

"Mae'r mapiau'n tynnu sylw at yr hyn y mae'r safleoedd yma'n ei wneud ac yn dangos ffactorau sydd efallai heb werth ariannol ond sy'n bwysig i'r amgylchedd.

"Mae'r dull hwn yn dangos beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd a sut y mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ac na allwn ni gael popeth."

‘Ewch Allan !’ - llyfryn yn annog ysgolion i fentro allan



Mae pob ysgol yn Ynys Môn wedi derbyn copi o gyfeirlyfr newydd yn llawn o syniadau am safleoedd naturiol i ymweld â nhw.

Y gobaith yw gallu cynhyrchu llyfrynnau tebyg ar gyfer ysgolion yn holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Mae’r cyfeirlyfr, Ewch Allan!, yn cynnwys 19 o safleoedd, gan gynnwys tair o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a reolir gan y Cyngor Cefn Gwlad – Tywyn Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn, Cors Erddreiniog a Chors Bodeilio.

Cafodd y pecyn ei greu mewn partneriaeth rhwng y Cyngor Cefn Gwlad, Cyngor Sir Ynys Môn, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Menter Môn ac eraill.

Mae fersiwn rhyngweithiol i’w gael ar wefan y Cyngor Sir gyda’r gallu i glicio ar fap o’r safleoedd i gael rhagor o wybodaeth amdanyn nhw. http://www.anglesey.gov.uk/education/extra-curricular-activities/get-out-there-directory-of-educational-sites-and-providers-on-anglesey/

Yn ôl swyddog Cyfathrebu a Phartneriaeth y Cyngor Cefn Gwlad, mae mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o fyd natur, gyda gweithgareddau fel mynd am dro, archwilio traethau a chyfeiriannu yn dysgu llawer i blant am fyd natur ac am eu lle yn y byd.

“Mae’r amgylchedd yn ystafell ddosbarth wych,” meddai Karen Rawlins. “Bydd y cyfeirlyfr yn helpu ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid ac eraill i ddefnyddio’r safleoedd mewn fforddgyffrous sydd eto’n ddiogel a sensitif i’r amgylchedd.”

Pecyn addysg newydd am newid hinsawdd

Mae’r Cyngor Cefn Gwlad wedi rhoi cyllid at adnodd addysg newydd i greu gwersi ysbrydoledig am newid hinsawdd yn ysgolion uwchradd Cymru.

Mae’r Pecyn Adnoddau Addysg Newid Hinsawdd wedi’i anelu at ddisgyblion sy’n sefyll TGAU ac yn egluro sut y gallai newid hinsawdd effeithio ar Gymru a’i phobl.

Mae’r pecyn dwyieithog, sy’n cael ei ddosbarthu i 100 o ysgolion trwy Gymru, yn tynnu ar esiamplau o bob rhan o’r byd ac yn rhoi sylw i bynciau bob dydd, megis yr effaith ar gyflenwadau bwyd, trafnidiaeth ac iechyd.

Y bwriad yw helpu athrawon i gynnig gwybodaeth gytbwys, o ansawdd uchel, ac ysbrydoli pobl ifanc i addasu eu hymddygiad.

Mae pobl ifanc hefyd wedi cyfrannu at y cynnwys trwy Fforwm Newid Hinsawdd Pobl Ifanc Cymru, sy’n cynnwys pobl ifanc o gymunedau yng Ngwynedd, Ceredigion, Abertawe, Bro Morgannwg a Sir Fynwy.

Cafodd y pecyn ei ddatblygu gan staff Ysgol Gwyddorau’r Ddaear a’r Môr ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae wedi derbyn arian gan Goleufa Cymru a rhaglen INTERREG yr Undeb Ewropeaidd.

Gadael y dosbarth i ddysgu

Fe ddaeth cyflenwyr addysg sy’n arbenigo ar Ddysgu y Tu Allan i’r Ystafell Ddosbarth at ei gilydd yn diweddar i rannu syniadau da am sut y gall yr amgylchedd naturiol ychwanegu dimensiwn arall at addysg a hyfforddiant.

Roedd y digwyddiad, ‘School’s Out!’ wedi ei gynnal gan y Cyngor Cefn Gwlad gan ddangos sut y gall Dysgu y Tu Allan i’r Ystafell Ddosbarth gynyddu’r cyswllt y mae plant a phobl ifanc yn ei gael gyda’r amgylchedd a gwella’u dealltwriaeth ohono.

Roedd y diwrnod, gyda chyflwyniadau a gweithdai, yn llwyddiant, meddai Siobhan Hayward, Cynghorydd Addysg y Cyngor, gyda chyfleoedd i ddysgu am yr amrywiaeth eang o brosiectau sy’n digwydd ledled Cymru.

Cafwyd cyflwyniadau gan 18 o gyrff yn dangos sut y gallan nhw gynnig cyfleoedd yn yr awyr agored sy’n gysylltiedig â’r cwricwlwm Cymreig, gan gynnwys Addysg Dros Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Addysg Bersonol a Chymdeithasol a sgiliau allweddol.

Roedd prosiectau’n cynnwys garddio bywyd gwyllt, defnyddio’r amgylchedd i ysbrydoli celf, gwella tir ysgolion a dysgu am Warchodfeydd Natur, Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol, Parciau Cenedlaethol ac amgylchedd y môr a’r glannau.

Roedd prosiectau eraill yn pwysleisio hyfforddiant sgiliau achrededig – er enghraifft prosiect Tir Coed, Egin, sy’n cynnig hyfforddiant achrededig mewn rheoli coedlannau a thechnegau gwaith coed gwyrdd traddodiadol er mwyn datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a galwedigaethol pobl ifanc rhwng 16 a 28 sydd ar yr ymylon ac yn byw mewn ardaloedd gwledig.

“Mae strategaeth addysg y Cyngor Cefn Gwlad yn canolbwyntio ar roi mwy o brofiad uniongyrchol i blant a phobl ifanc o fyd natur a’r amgylchedd,” meddai Siobhan Hayward.

“Os ydyn nhw’n cael profiadau gwerth chweil, maen nhw’n fwy tebyg o barchu’r amgylchedd naturiol a gofalu amdano a gweithredu i gefnogi newid at ffordd o fyw gynaliadwy.”

Mae’r Cyngor Cefn Gwlad yn gallu hybu cynlluniau trwy roi grantiau at brosiectau addysgol sydd wedi eu hanelu at awdurdodau lleol a chyrff anllywodraethol.

Grwpiau'n helpu i chwilio am famaliaid

Mae grwpiau o bobl mewn sawl ardal o Gymru'n helpu'r Cyngor Cefn Gwlad i ddysgu mwy am rai o'n mamaliaid prinnaf.

Ym mis Awst, tro pobl ardal Pumsaint yn Sir Gaerfyrddin oedd hi i chwilio am wiwerod coch; ym mis Tachwedd, roedd pobl ardal Dolgellau yn chwilio am olion pathewod.

Mae'r cyfan yn rhan o gynllun newydd, Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy, sy'n brosiect ar y cyd rhwng Cymru ac Iwerddon ac sydd wedi denu £1 miliwn o nawdd Ewropeaidd.

Trwy Sefydliad Technoleg Waterford, bydd y technegau genetig diweddaraf yn cael ei ddefnyddio i gynaeafu gwybodaeth o samplau o flew a baw.

Yn ôl un o swyddogion y prosiect, Ceri Morris, fe fydd modd defnyddio 'ôl bysedd

genetig' y creaduriaid i ddilyn unigolion, i ddysgu rhagor am eu perthynas â'i gilydd ac i ddeall amrywiaeth genetig y poblogaethau.

"Mae o'n gyffrous iawn," meddai. "Rydan ni'n helpu i ddatblygu technegau newydd ac rydan ni'n gobeithio ffeindio gwybodaeth newydd hefyd.

"Trwy ddysgu mwy am beth sydd yno, lle maen nhw a faint ohonyn nhw sydd yna, mi


Bele ©WildStock

Pathew

fyddwn ni'n gallu gwybod yn well sut i helpu'r mamaliaid yma."

Dyma'r rhywogaethau dan sylw: dyfrgwn, y bele, y wiwer goch, y ffwlbart, y carlwm a'r wenci, llygoden yr ŷd, y pathew a sawl math o ystlum.

Yn achos y bele, rhan o'r bwriad yw sefydlu a oes poblogaethau yng Nghymru, gan ddefnyddio gwybodaeth am gynefinoedd yn Iwerddon i chwilio am safleoedd tebyg yng Nghymru.

Yr elfen arall newydd yw'r cydweithio clos gyda gwirfoddolwyr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth cymunedau o gadwraeth a bywyd gwyllt.

"Mae gan lawer o bobl ddiddordeb," meddai Ceri, "ac mae'r prosiect yma'n rhoi'r cyfle iddyn nhw dysgu mwy am gadwraeth, a helpu gwarchod ein mamaliaid prin ar yr un pryd."

- *Roedd y diwrnod o chwilio am wiwerod coch wedi'i drefnu gan Y Vincent Wildlife Trust yng Nghoedwig Bryn Arau Duon ac fe ddaeth tua 40 o wirfoddolwyr yno. Hwnnw oedd y cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau o'r fath ac er na welodd neb wiwer goch ar y diwrnod , fe welwyd eu holion, ac fe dynnwyd llun un gan gamerâu sydd yno.*
- *Yn Nolgellau, y nod oedd dod o hyd i gnau gydag olion dannedd pathewod arnyn nhw ac fe fydd gwaith grwpiau eraill yn cynnwys chwilio am faw'r bele mewn coedwigoedd pin a chrwydro glannau afonydd a'r môr i chwilio am ddyfrgwn. Mae'r cynllun yn cael ei gynnal yn holl siroedd gogledd a gorllewin ymru, o ardal Abertawe i Wrecsam.Swansea around to Wrexham.*

Rhagor o ddyfrgwn – a marwolaethau

Mae yna gynnydd wedi bod yn nifer y safleoedd lle mae dyfrgwn wedi eu nodi yng Nghymru, yn ôl yr arolwg diweddaraf.

Fodd bynnag, mae nifer y dyfrgwn sy'n marw ar ffyrdd hefyd wedi codi o rhwng 50 a 60 o anifeiliaid y flwyddyn.

Mae'r diweddaraf o Arolygon Dyfrgwn Cymru'n dangos bod nifer y safleoedd ble cafwyd dyfrgwn wedi cod i fwy na 50 – cynnydd ers y canlyniadau yn 2002.

"Newyddion da yw'r ffaith fod dyfrgwn yn dychwelyd i afonydd a glannau Cymru, a hynny'n cael ei helpu gan ansawdd dŵr a'r warchodaeth sydd i'r anifeiliaid a'u cynefinoedd," meddai Jean Matthews, Ecolegydd Mamaliaid y Cyngor.

"Yn anffodus mae cynnydd hefyd wedi bod yn nifer y dyfrgwn sydd wedi eu lladd ar y ffyrdd."

Mae union ffigwr y marwolaethau'n uwch na'r ystadegau swyddogol am nad yw pob marwolaeth yn cael ei chofnodi ac am fod llawer o genawon hefyd yn marw os ydyn nhw ar eu pen eu hunain.

Cafodd y Grŵp Llywio Ffyrdd a Dyfrgwn ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl i helpu atal y broblem, sy'n waeth yn yr hydref a'r gaeaf, pan fydd lefelau dŵr uchel yn cau llwybrau tramwy arferol, gan eu gorfodi i grwydro ar y ffyrdd.

Mae mesurau lliniaru'n cynnwys ffensio er mwyn creu ffosydd sych, uwch lefel llifogydd, ar ffyrdd newydd. Mae hefyd yn bosib creu 'silffoedd' dyfrgwn ar ffosydd sy'n dueddol o lenwi â dŵr ac ar bontydd mewn safleoedd lle mae llawer o ddyfrgwn yn cael eu lladd.

Mae gan y Grŵp system ar gyfer casglu dyfrgwn sy'n marw ar y ffyrdd gan eu hanfon wedyn i Brifysgol Caerdydd ar gyfer archwiliadau post mortem.

"Mae hyn hefyd yn cynnig gwybodaeth am lefelau llygredd – arwydd gwerthfawr o iechyd yr ecosystemau sy'n ein cynnal ni i gyd," meddai Jean Matthews.

Dylai unrhyw un sy'n gweld dyfrgi marw alw Asiantaeth Amgylchedd Cymru ar 0800 807060 gyda gwybodaeth am y safle.

Mae'r Grŵp Llywio Ffyrdd a Dyfrgwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol (Ecolegwyr, Priffyrdd a Bioamrywiaeth), Prifysgol Caerdydd, y Cyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth Amgylchedd Cymru, yr Ymgynghoriaeth Ddyfrgwn, Asiantaethau Priffyrdd ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru.

Mae dwy ardal yng Nghymru ymhlith 11 o bartneriaethau ar draws y Deyrnas Unedig i gael 'pas rownd gyntaf' yng nghynllun grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri – gyda chefnogaeth y Cyngor Cefn Gwlad. Er nad yw cyllid terfynol yn sicr, mae hyn yn golygu bod y cais yn cael sylw ffafriol.

Y Cyngor yn helpu cais Loteri ar y Gororau

Mae'r Cyngor yn rhan o bartneriaeth sy'n datblygu cynllun i warchod ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr mewn ardal hardd sydd ar y gororau rhwng Cymru a Lloegr.

Bydd y Cyngor hefyd yn helpu i gyllido'r cynllun, sy'n cael ei baratoi gan Bartneriaeth Tirwedd Gwlad Carneddau Teon a Bryniau Cornatyn ar y ffin rhwng Swydd Amwythig a Phowys, ger ardal Trefaldwyn.

Mae bron £100,000 eisoes wedi ei sicrhau gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y 12 mis cyntaf er mwyn paratoi cynlluniau ar gyfer cais grant llawn am bum mlynedd.

"Dyma enghraifft dda o sut y gall cefnogaeth y Cyngor helpu gyda cheisiadau am gyllid o ffynonellau eraill," meddai Carol Fielding, Arweinydd Tîm Sir Drefaldwyn.

Mae dwy wedi eu penodi i rannu swydd Cydlynydd ar gyfer y prosiect a'r disgwyl yw y bydd y cyllid ar gyfer y prosiect cyfan chwe-blynedd tua £2.25 miliwn. Yn ystod y flwyddyn yma, bydd ymgynghori gyda chymunedau lleol i gael eu syniadau am yr hyn y maen nhw eisiau i'r prosiect ei gyflawni.

Byddai'r cynllun yn adfer a chadw safleoedd naturiol, hanesyddol a daearegol yn y cylch sydd â miloedd o flynyddoedd o draddodiad o gloddio am fwynau a nifer o gynefinoedd a rhywogaethau prin.

Mae gan yr ardal, sy'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Swydd Amwythig, frithwaith o gynefinoedd, gan gynnwys rhostiroedd grug, coedydd hynafol a chaeau blodau gwyllt.

Mae'r rhywogaethau prin a fyddai'n elwa o'r cynllun yn cynnwys y gylfinir, y gïach a'r gornchwiglen, ystlumod trwyn pedol lleiaf, glöyn y brith perladeiniog, fioled y mynydd a'r clychlys ymledol.

Golygfa o Corndon a Chymru, o gyfeiriad Stiperstones yn sir Awythig

Mae'r boblogaeth Gymreig o glychlys ymledol bellach wedi ei chyfyngu i ychydig safleoedd allweddol ar ffin Cymru a Lloegr a byddai'r cynllun yn fodd i wneud gwaith i sicrhau fod y blodyn yn goroesi yn ardal Cornatyn.

Yn ogystal â chadwraeth, byddai'r cynllun yn gwella dehongli a mynediad, hyrwyddo cynnyrch lleol a hyfforddiant sgiliau a chydweithio clos ar draws y ffin genedlaethol.

"R'yn ni'n gobeithio y bydd y prosiect hwn yn arwain at gyfnewid syniadau rhwng grwpiau ar ddwy ochr y ffin ac y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd sut y byddwn yn trysori a gofalu am y dirwedd bwysig hon," meddai Carol Fielding.

Penrhyn Gŵyr yn nesu at gynllun cadwraeth gwerth £1.3 miliwn

Penrhyn Gŵyr yn nesu at gynllun cadwraeth gwerth £2.1 miliwn

Mae partneriaeth dirwedd wedi cymryd y cam cyntaf pwysig at ennill grant gwerth £2.1 miliwn i warchod cynefinoedd naturiol pwysig a nodweddion hanesyddol.

Y Cyngor yw un o 21 o gyrff sy'n rhan o Bartneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penrhyn Gŵyr sy'n paratoi cynllun mawr i ddiogelu safleoedd hyd y glannau yno.

Mae'r Bartneriaeth wedi ennill grant o £112,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatblygu'r cynlluniau gyda'r bwriad o wneud cais am gyllid llawn yn gynnar yn 2013. Yn ogystal ag amser staff, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn darparu £45,000 tuag at y cynllun dros dair blynedd.

Byddai'r gwaith yn cynnwys rheoli rhywogaethau ymledol, rheoli coedlannau bach a chaeau gwlyb a chofnodi 'iaith' unigryw Gŵyr, sy'n gymysgedd o Gymraeg a Saesneg ac yn cynnig ei henwau ei hun ar gyfer llawer o nodweddion naturiol.

Bydd cyfraniad y gymuned a gwaith gwirfoddol yn rhan bwysig o'r cynllun terfynol ar y penrhyn, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf i'w dynodi ym Mhrydain ac mae'n enwog am ei chlogwyni calch, corsydd heli, cilfachau tawel a thwyni tywod.

Mae'r cynefinoedd wedi dod dan bwysau cynyddol yn ddiweddar oherwydd twf twristiaeth a newidiadau amaethyddol.

Dywedodd y Cynghorydd John Hague, Cadeirydd Partneriaeth AHNE Penrhyn Gŵyr: "Bydd y cyllid yn caniatáu i ni weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu prosiectau arloesol a fydd yn gwella'r ardal ac yn ei chadw'n lle arbennig i drigolion Gŵyr yn ogystal â'r miloedd o ymwelwyr sy'n mynd yno bob blwyddyn."

Monitro'r môr yn dangos ei werth

Mae'r Cyngor yn dod i ddiwedd ei gytundeb mawr chwe-blynedd cyntaf i fonitro ansawdd riffau (neu sarnau) mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ger glannau Cymru.

Ac, wrth i ddarlun llawnach ddod yn glir, mae profiad yn dangos beth yw gwerth monitro tymor hir wrth ddeall beth sy'n digwydd o ddifri' mewn cynefinoedd pwysig.

Bydd yr adroddiad, sy'n cael ei gynhyrchu ar ddiwedd y cylch chwe blynedd o fonitro, yn dangos bod rhai nodweddion wedi'u darganfod, o leiaf un nodwedd ACA wedi newid yn sylweddol ac un wedi mynd trwy broses o ddirywio ac adfer a allai fod yn dwyllodrus.

Mae'r monitro, sy'n cael ei wneud ar y cyd gan y Cyngor a dau gontractwr preifat, wedi cynnwys y casgliad sarnau sy'n safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd, o arfordir dwyrain Môn i lawr i Aberdaugleddau a glannau Sir Benfro.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Sylweddoli gwerth riffau marchfisglod bregus, sy'n ffurfio crwst trwchus hyd wely'r môr, gyda llawer o gilfachau a chorneli sy'n gallu bod yn gartref i gymaint â 7,000 o wahanol greaduriaid fesul metr sgwâr. Mae monitro wedi dangos peth difrod oherwydd treillio am gregyn bylchog.
- Dod o hyd i sarn newydd prin ger Bermo. Ei henw yw Sarn Holden, ar ôl y person a ddaeth o hyd iddi. Un enw am y math yma o nodwedd yw sarn befriog – mae'n cael ei chreu gan facteria sy'n 'bwydo' ar nwy methan sy'n gollwng o wely'r môr.
- Newid mawr ym mhoblogaeth y sbyngau ar ran y Coleg Normal o Afon Menai. Mae staff y Cyngor wedi sylwi ar leihad yn niferoedd rhai o'r rhywogaethau mwy o sbyngau ond bod mwy o amrywiaeth. Un o'r rhesymau posib yw bod llai o garthion yn cael eu gollwng i'r Afon.
- Newid llwyr yng ngwely'r môr yn Sarn Badrig, un o sarnau enwocaf Cymru. Mae meysydd toreithiog o algae wedi dirywio'n sydyn ond bellach wedi dechrau ailgydio.
- Lleihad bychan yn amrywiaeth y rhywogaethau ar ochr y môr o'r derfynfa nwy LNG newydd yn Aberdaugleddau. Gydag effeithiau posib o ddyfroedd twym yn dod o'r orsaf ynni newydd yno, dyma enghraifft bwysig o ble y bydd angen monitro cyson.

"Rhaid i ni adrodd bob chwe blynedd ar gyflwr ein safleoedd Ewropeaidd," meddai Bywydegydd Monitro Morol y Cyngor, Rohan Holt. "Dyma ddiwedd y cytundeb mawr cyntaf ac rydan ni'n dechrau gweld patrymau.

"Does dim llawer o newid wedi bod ar y riff cregyn gleision, ond rydan ni'n gallu gweld yn gywir iawn pan fydd difrod wedi digwydd oherwydd pysgota neu dreillio anghyfreithlon.

"Mae rhai o'r safleoedd eraill yn dangos pwysigrwydd monitro cyson yn y tymor hir. Heb hynny, mi allen ni fod wedi camddeall yn llwyr beth oedd achos rhai o'r newidiadau. Mae'n allweddol parhau gyda'r gyfres wybodaeth."

Achos rhyfedd sêr môr Sarn Badrig

Mae'r meysydd algae ger Sarn Badrig yn dangos sut y gall monitro cyson, tymor hir, egluro newidiadau a fyddai, fel arall, yn ddryswch i amgylcheddwyr.

Ar ôl gaeaf oer iawn 2009-10, roedd yna ymchwydd anferth yn niferoedd y cregyn gleision ym Mae Tremadog.

Yn Sarn Badrig, roedden nhw wedi mygu a dinistrio'r meysydd algae toreithiog a hardd oedd yn tyfu yno.

Y datblygiad nesaf a welwyd wrth fonitro oedd cynnydd anferth yn nifer y sêr môr a oedd yn bwydo ar y cregyn gleision.

Pan ddaeth y cyflenwad bwyd i ben, aeth y sêr môr ac mae'r meysydd algae bellach yn dangos arwyddion ailafael.

"Petaen ni wedi dibynnu ar un olwg ar un adeg yn ystod y gyfres yma o ddigwyddiadau, mi fydden ni wedi poeni'n arw bod rhyw broblem fawr amgylcheddol yn digwydd ond fyddai gynnon ni ddim syniad o'r achos," meddai Rohan Holt.

"Mae ein monitro wedi dangos mai proses naturiol oedd hon. Ac mae hynny'n dangos gwerth y math yma o fonitro."

Erbyn haf 2010 mae sêr môr mawr wedi gorffen bwyta'r cregyn gleision sydd ar ôl, gan adael dim ond gweddillion o rywbeth a oedd unwaith yn ddôl alga ffrwythlon

Gelyn yn ysbrydoli Gwen!

Mae Gwen Alun yn cydnabod nad yw gwrthrych ei gwaith hi "y peth dela' yn y byd". A dweud y gwir, y nod yw cael gwared arni!

Er hynny mae'r fyfyrwraig o Brifysgol Bangor wedi dod i barchu'r chwistrell fôr garpedog ac yn ei chael yn "ddiddorol iawn".

A hithau'n rhan o'r cynllun Am Nawdd, pan fydd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn y maes amgylcheddol yn cael cefnogaeth ariannol a phrofiad gwaith gyda chyrff fel y Cyngor, mae'n gobeithio parhau ei gyrfa gyda rhywogaethau estron o'r fath.

Rhan o waith y ferch o Lanberis yw plymio dan y dŵr ym marina Caergybi er mwyn ffilmio'r chwistrell estron, sy'n creu problemau trwy orchuddio gwaelodion cychod a rhai o'r pontŵns yno. Heb ei rheoli, gallair creadur ymledu a bygwth mygu rhywogaethau brodorol gan gynnwys y diwydiant cregyn gleision yn afon Menai.

"Mae o'n waith caled – yn galetach na'r disgwyl," meddai. "Mae'n anodd iawn cadw'r camera'n llonydd."

Mae'r Cyngor newydd ddechrau ar arbrawf "aflonyddu" – ymgais i weld sut y mae'r chwistrell yn lledu, wrth i un rhan dorri ymaith a "setlo" yn rhywle arall.

Un dirgelwch, meddai Gwen, yw mai dim ond yn y marina y mae'r chwistrell yn creu problemau hyd yn hyn.

Nod ei gwaith hi yw gweld a yw'r chwistrell yn hoffi rhai mannau yn fwy nag eraill. Fe fydd yr wybodaeth, sy'n cael ei chasglu a'i dadansoddi bob mis, yn cyfrannu at strategaeth i gael gwared ar y chwistrell.

Mae'r chwistrell yn dod yn wreiddiol o Japan ac yn lledu trwy lynu ar waelodion cychod neu fynd i mewn i'r dŵr balast.

"Mi faswn i'n licio cario ymlaen i weithio i gorff fel y Cyngor ac ar y chwistrell garpedog," meddai Gwen. "Mae gen i ddiddordeb mawr yn y rhywogaethau ymledol o'r fath."

Yn diweddar, mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi derbyn arian penodol gan Lywodraeth y Cynulliad i gael gwared â'r chwistrell fôr garpedog. Y nod – a'r sialens – yw cyflawni hyn cyn i'r tywydd gynhesu yn y gwanwyn pan fydd y creadur yn ymledu fwyfwy.

Gwen (ar y dde) wrth ei gwaith

Pobl yn helpu llwybrau – llwybrau'n helpu pobl

Mae grant gan y Cyngor Cefn Gwlad wedi helpu i agor rhwydwaith o lwybrau a throeon newydd ym Mro Morgannwg, a hefyd wedi creu nifer o gyfleoedd gwirfoddoli yng nghefn gwlad..

Roedd y Cyngor wedi rhoi cyllid i'r mudiad elusennol Valeways, sy'n cefnogi gwirfoddolwyr i wella llwybrau yn yr ardal.

Bydd y gwirfoddolwyr yn gwneud yn siŵr bod llwybrau'n agored a hawdd eu cerdded, wrth helpu gyda thasgau fel cynnal a chadw, trwsio camfeydd a chlirio prysgwydd.

Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn ennill sgiliau newydd a ffrindiau newydd wrth weithio, ac mae'r rhaglen hefyd yn cyfrannu at iechyd a lles y gwirfoddolwyr.

Arwydd o lwyddiant y cynllun yw'r ffaith bod llawer o'r gwirfoddolwyr rheolaidd wedi parhau, ar ôl dechrau trwy orfod cymryd rhan, yn amod o'r cynllun Bargen Newydd.

"Mae'r gwirfoddolwyr yn gweld gwerth y gwaith – maen nhw'n gweld eu bod yn gwneud gwahaniaeth," meddai Collette Mooney o'r Cyngor Cefn Gwlad a ymunodd gyda nhw yn ystod y prosiect. "Ar ôl eu gwaith, mae'r llwybr yn gliriach ac yn haws ei ddefnyddio.

"Mae gwaith yn cadw pobl yn fywiog ac mae'r ffrindiau y maen nhw'n eu gwneud o fewn y grŵp yn eu hysgogi i gael rwtîn er nad ydyn nhw'n gweithio.

"Mae'n wych gweld prosiectau fel hyn, sy'n cyflawni amcanion y Cyngor i wella iechyd corfforol a meddyliol trwy brofiadau yn yr awyr iach."

Ymhlith eraill sy'n helpu weithiau, mae pobl ifanc ar brofiad gwaith a staff busnes yn cymryd rhan mewn ymarferion gweithio mewn tîm.

Prosiect gwybodaeth am bysgota yn torri tir newydd

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda physgotwyr o amgylch Ynys Môn er mwyn cyfrannu at bysgota mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Yr haf diwethaf, bu Dirprwy Weinidog Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru, Alun Davies, yn ymweld â Phorth Penrhyn, Bangor, i weld sut y mae gwybodaeth yn cael ei chasglu ar gyfer prosiect FishMapMôn.

Os bydd yn llwyddo, fe allai'r dull ymchwil – sy'n cael ei ddefnyddio ar ddyfroedd Cymru o Borthdinllaen ger Nefyn, o amgylch Ynys Môn at Ben y Gogarth – gael ei gymhwyso at ardaloedd eraill hyd glannau Cymru.

Yr hydref diwethaf, bu staff y Cyngor yn gweithio gyda chapteiniaid cychod pysgota siarter yn yr ardal i ddysgu lle maen nhw'n mynd â physgotwyr môr a pha mor aml.

Bellach, mae'r ffocws ar gasglu gwybodaeth debyg gan bysgotwyr masnachol, gan ddysgu ble maen nhw'n mynd, pa fath o offer pysgota y maen nhw'n ei ddefnyddio a pha mor aml.

Bydd pysgotwyr môr er hamdden yn cael eu holi eleni hefyd.

Bydd yr wybodaeth yn cyfrannu at gasgliadau o wybodaeth o ansawdd uchel i'w defnyddio gyda mapiau eraill i



Dewi Jones, Swyddog Cyswllt Pysgodfeydd (ar y chwith) gydag Alun Davies, Dirprwy Weinidog Pysgodfeydd

fesur effaith pysgota ar wahanol gynefinoedd, meddai Sue Hearn, Swyddog Prosiect Rheoli Pysgodfeydd y Cyngor.

"Y nod sylfaenol yw mesur dwysedd pysgota o fewn ardal y prosiect ac yna mesur sensitifrwydd gwahanol gynefinoedd i'r lefel hwnnw o bysgota.

"Er enghraifft, os ydych chi'n gwybod faint o bysgota cimychiaid sy'n digwydd, fe allwch amcangyfrif beth yw'r effaith ar gynefinoedd gwely'r môr a chynnig arweiniad am lefelau pysgota cimychiaid yn yr ardal honno."

Yn ogystal â chynnig gwell gwybodaeth ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd y môr, bydd y data newydd yn cyfrannu at gynaladwyedd tymor hir y pysgodfeydd lleol.

"Mae'r cymdeithasau pysgotwyr wedi bod yn gefnogol iawn, sy'n wych." meddai Sue Hearn. "Mae er lles pawb i gael penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar well gwybodaeth."

Rhai partneriaethau ...

Teithiau awyr iach yn rhoi hyder

Mae nifer o grwpiau lleiafrifol a di-fraint wedi cael cyfle i fwynhau'r awyr iach, diolch i gynllun MYNED y Cyngor Cefn Gwlad.

Yn eu plith roedd grŵp o ferched Tsieineaidd, grŵp gydag anawsterau dysgu a phobl oedrannus. Ddiwedd Tachwedd, aeth criw mawr o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig o Fangor ar daith i Fiwmares

Roedd y cyfan wedi'i drefnu gan gwmni Sylfaen Cymunedol, sydd wedi cael y cytundeb i weithredu'r cynllun ar draws Cymru ar ran y Cyngor.

"Mae diffyg hyder yn gallu rhwystro pobol os nac ydyn nhw wedi bod allan yn y wlad o'r blaen, neu os ydyn nhw newydd gyrraedd y wlad, neu'n dioddef o anabledd," meddai trefnydd y teithiau yn y Gogledd, Jen Rowlands.

"Ein nod yw cynnal 20 taith mewn blwyddyn. Mae'r gwaith yn estyniad o waith y Black Environmental Network ond yn llawer ehangach."

Fe fydd taith arall yn mynd â chriw o dadau a'u plant o ardal Blaenau Ffestiniog i gael blas ar ddringo – rhan o gynllun i wella sgiliau rhianta oedolion.

Dyma dair o deithiau diweddar:

- Wal Kwun ar y Gogarth – fe fu 22 o aelodau Cymdeithas Merched Tsieneaidd Wai Kwun Gogledd Cymru'n cerdded Pen y Gogarth. Roedd amryw wedi eu hyfforddi i arwain teithiau cerdded ac eisiau dod i adnabod lle newydd. Er eu bod yng Ngogledd Cymru ers blynyddoedd, dim ond dwy oedd wedi bod ar y Gogarth o'r blaen.
- Antur i'r Warchodfa – Roedd criw o Gynllun Cartrefu Antur Waunfawr, sy'n helpu pobl ag anableddau dysgu, wrth eu bodd yn gweld cannoedd o forwenoliaid yng Ngwarchodfa Natur Cemlyn ym Môn. Fe fuon nhw'n edrych ar yr adar trwy sbeinglas a thelesgop ac fe aethon nhw am dro i weld Ynysoedd y Moelrhoniaid.
- Gweld y Gweilch – fe deithiodd Clwb Cerdded Heneiddio'n Dda Brynsiencyn i'r cyfeiriad arall i weld nyth Gweilch y Môr yn Glaslyn ger Porthmadog. Roedd dau gyw newydd hedfan o'r nyth ac un ar ôl pan ddaethon nhw yno a chael sgwrs gan warden y Gymdeithas Warchod Adar.

Cydweithio i atal goresgyniad y chwyn

Mae prosiect amgylcheddol ar y cyd gan Ymddiriedolaeth Afon Dyfrdwy ac Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd a Chonwy yn ceisio rhwystro chwyn dieithr rhag lledu ar hyd yr afonydd.

"Un o brif amcanion ymddiriedolaethau'r afonydd yw cynnal a gwarchod bywyd gwyllt cynhenid o fewn dalgylchoedd yr afonydd", meddai Dr Neil Smith, Swyddog Cadwraeth o'r Cyngor..

"Pysgotwyr sy'n gwneud y gwaith ac mae'n amlwg bod gwarchodaeth yr afonydd a'i naws arbennig yn bwysig iddynt."

"Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar drin tyfiant dau chwynnyn ymledol yn benodol - Canclwm Siapan a Jac y Neidiwr."

"Mae'n dasg enfawr, sy'n golygu cael trefn glir a digon o bobl wedi eu hyfforddi'n gywir yn y broses o drin a dileu'r chwyn."

Mae darn arall o'r gwaith yn cynnwys mapio lleoliad chwyn ymledol i ni gael gwell gwybodaeth ar gyfer ei reoli.

- Mae Cynhadledd ar Reoli Chwyn Ymledol yn ardal yr afon Ddyfrdwy yn cael ei chynnal ddydd Gwener, 17 Chwerfror 2012, Beaufort Park, Yr Wyddgrug.

Gridiau i adfer mynydd gwerthfawr



Mae cyngor a chefnogaeth gan staff y Cyngor Cefn Gwlad wedi helpu cymuned i ddechrau adfer cynefinoedd gwerthfawr.

O ganlyniad, mae Menter Cwm Gwendraeth a Chymdeithas Cyfeillion y Comin wedi derbyn £150,000 o Gronfa'r Ardoll Agregau er mwyn gosod pedwar grid gwartheg ar Fynydd Llangyndeyrn.

Mae'r tir comin yno'n cynnwys cyfoeth o olion hanesyddol o'r Oes Efydd a'r Neolithig ac mae'n gartref i löyn byw britheg y gors, i'r aderyn prin, clegar y cerrig, ac i falwoden y rhos, sy'n arbennig o brin.

Ar hyd y blynyddoedd, roedd yr amrywiaeth o rostir sych a gwlyb yn cael ei bori gan wartheg a'r rheiny'n cadw'r glaswellt yn fyr fel bod yr holl nodweddion diddorol i'w gweld.

Ond, gyda chwarel fawr y drws nesaf, roedd pryder y byddai gwartheg yn cael eu colli yno neu'n crwydro i ffordd gyfagos a chael eu taro gan lorïau'r chwarel. O ganlyniad i hynny, daeth y pori i ben ac fe ddirywiodd y cynefinoedd.

Yr ateb oedd gridiau gwartheg ac fe gafodd Menter Cwm Gwendraeth gyfarwyddyd ac arweiniad gan swyddogion cenedlaethol a lleol y Cyngor Cefn Gwlad ynglŷn â gwneud cais i Gronfa'r Ardoll.

Gyda'r gridiau yn eu lle y gobaith yw y bydd gwartheg a merlod yn gallu pori yno eto ac y bydd hynny'n sbardun i ddenu rhagor o rywogaethau a hybu cynefinoedd.

Roedd grant bychan o £5,000 dan y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) hefyd wedi gwneud gwahaniaeth trwy roi hyder i gyllidwyr eraill.

Ffeil Troseddu

Matthew'n torri tir newydd gyda Heddlu Dyfed-Powys

Mae un arall o heddluoedd Cymru wedi penodi swyddog arbennig ym maes bywyd gwyllt a'r amgylchedd – y trydydd o'i fath.

Mae'r Rhingyll Matthew Howells wedi dechrau ar ei waith ers yr haf diwethaf, o dan adain Heddlu Dyfed-Powys, ac mae newydd drefnu ei Gynhadledd Troseddau Bywyd Gwyllt gyntaf.

Fe ddaeth tua 100 o gynrychiolwyr i ran newydd o bencadlys yr heddlu ger Caerfyrddin i rannu profiadau – rhai o staff y Cyngor Cefn Gwlad ynghyd â swyddogion o'r heddluoedd a'r gwasanaethau achub.

Ymhlith y cyflwyniadau, roedd adroddiad ar Brosiect Gwalch y Pysgod Dyfi, sy'n cael ei ystyried yn enghraifft lwyddiannus o warchod adar ysglyfaethus prin rhag lladron wyau.

Fe gafodd Strategaeth Bywyd Gwyllt Cymru gyfan ei lansio hefyd ac roedd cynrychiolwyr o Uned Troseddau Bywyd Gwyllt yr Alban yn rhoi cyflwyniad ar bwysigrwydd casglu gwybodaeth dda.

Mab fferm

Mae Matthew Howells yn fab fferm o Fancyfelin ger Caerfyrddin ac fe fu'n ffermio'i hunan cyn ymuno â'r heddlu naw mlynedd yn ôl.

Mae bellach ar secondiad dwy flynedd gyda chefnogaeth ariannol y Cyngor Cefn Gwlad ac mae'n gweithio o nifer o swyddfeydd Heddlu Dyfed-Powys.

Oherwydd ei gefndir, mae'n gweld troseddau bywyd gwyllt yn rhan o batrwm ehangach o droseddau gwledig.

"Gyda chysylltiadau mor gry' gyda chefn gwlad, rwy'n gobeithio y galla' i ddefnyddio'r profiad a'r wybodaeth yna i gryfhau'r berthynas rhwng yr heddlu a thirfeddianwyr, tenantiaid, ffermwyr, cymunedau gwledig a'r Cyngor Cefn Gwlad," meddai.

Cyhoeddi manylion am adolygiad o fapiau tir agored

Bydd gan dirfeddianwyr, ffermwyr a grwpiau sydd â diddordeb gyfle newydd i roi eu barn ar fapiau mynediad i dir agored a thir comin cofrestredig.

Bydd rhaglen ymgynghori statudol yn dechrau fis Mehefin 2012, yn rhan o adolygiad llawn o'r mapiau, ddeng mlynedd ar ôl eu cyhoeddi gyntaf.

"Mae trin a thrafod gyda thirfeddianwyr a grwpiau cyfranogwyr yn elfen hanfodol o'r adolygiad o'r mapiau," meddai Richard Owen o'r Cyngor Cefn Gwlad.

"Ein nod yw gwneud yn siwr fod y broses yn agored a thryloyw a bod pawb sydd â diddordeb yn y mater yn cael cyfle i adolygu'r mynediad yn eu hardaloedd nhw."

Roedd yn pwysleisio y byddai swyddogion y Cyngor yn hapus i ymweld â darnau o dir i drafod wyneb yn wyneb ac y byddan nhw wastad yn gofyn am ganiatâd os bydd angen iddyn nhw fynd ar y tir.

Does dim disgwyl newidiadau sylweddol gan fod safon y mapiau gwreiddiol mor dda. Ond mae disgwyl y bydd rhai ffiniau'n cael eu haltro ychydig a bydd cyfle i bobl sydd â diddordeb roi eu barn.

Mae'r Cyngor bellach wedi amlinellu prif gamau'r broses, gan ddechrau gydag esboniad o'r broses i grwpiau diddordeb cyn ymgynghori'n eang â phawb sydd â diddordeb ym mis Mehefin 2012.

Fe fydd ymgyrch yn y cyfryngau ac ar-lein hefyd i dynnu sylw at y gwaith.

Bydd y pwyslais ar dechnoleg ddigidol er mwyn torri costau i'r lleiafswm a sicrhau proses werdd.

Gwobr i Richard am gynllun arloesol

Ffermwr ifanc sy'n gobeithio codi melin wynt ar dir y teulu a thrawsnewid eu busnes oedd enillydd Gwobr Arloeswr Ifanc 2011.

Fe dderbyniodd Richard Rees, 23 oed, o Rhyd-y-Foel, Abergele, y wobr o £1,000 ar ôl cynnig cynllun ynni glân i greu incwm ychwanegol ar y fferm.

Dic Jones, Llywydd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, oedd yn cyflwyno'r wobr yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Mae'n cael ei noddi gan gwmni ynni adnewyddadwy, Dulas, er mwyn annog defnydd arloesol o adnoddau naturiol.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn un o gefnogwyr y gystadleuaeth sy'n cael ei threfnu gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru.

Fe fyddai godi melin wynt ar ffarm Pant Idda yn rhoi cyfle i dad ac ewythr Richard ymddeol ychydig ynghynt a chael incwm wrth wneud, gan ganiatáu iddo yntau a'i frawd ddechrau gofalu am y tir.

Ar ôl cael un siom, mae yntau bellach yn addasu'r cynllun – fe gafodd ei gais cynllunio cynta'i wrthod ond mae'n hyderus y bydd yn datrys y problemau.

Ar ôl cyfnod yn helpu i ddatblygu Tîm Ynni yng nghwmni eiddo Carter Jonas, mae bellach wedi sefydlu ei gwmni ei hun yn gweithio mewn partneriaeth gyda ffermwyr i sefydlu cynlluniau ynni dŵr.

"Efo'r newidiadau posib mewn grantiau amaethyddol, dw i'n credu ei bod yn bwysig i fy nghenhedlaeth i ddatblygu syniadau newydd," meddai Richard ar ôl derbyn y wobr.

"Gyda rhai pobl yn sicr o feirniadu pan fyddwch chi'n trio gwneud rhywbeth newydd, mae'r wobr yn hwb mawr i fi, gan ddangos bod y gymdeithas ehangach yn deall beth yr ydw i'n ei wneud."

Roedd Cadeirydd y Cyngor Cefn Gwlad, Morgan Parry, hefyd yn falch o gefnogi'r gystadleuaeth.

"Wrth iddi ddatblygu, fe fydd y cynllun arloesol yma'n annog llawer rhagor o bobl i ystyried pa adnoddau naturiol y gall eu busnesau eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon.

"Mi fydd yr enillion yn ddeublyg – yn ogystal â chynnig dyfodol mwy cynaladwy, mae arloesi gydag adnoddau naturiol yn gallu rhoi gwerth economaidd i fusnesau."

Cyhoeddir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru
Prif Swyddfa: Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW
Ffôn: 0845 1306 229
Ar y wê www.ccw.gov.uk

Rhanbarth Gogledd Cymru, Llys y Bont, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BN Ffôn: 01248 672500.Rhanbath Gorllewin Cymru, Adeilad Cynulliad Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR Ffôn:01970 631160Rhanbarth Dwyrain Cymru, Uned 77, Castleton Court, Fortran Road, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT Ffôn: 02920 772400.

Golygydd Helen Evans

Dyw'r farn sy'n cael llais yn rhai o'r erthyglau yn y cyhoeddiad hwn ddim o angenrheidrwydd yn cyfateb i farn y Cyngor